# LLYTHYR NEWYDDION

Cyhoeddwyd: 4 Mawrth 2011

Cynnwys

1. Mae'r Llythyr Newyddion hon yn cynnwys gwybodaeth am y testunau canlynol:-

- Fframwaith statudol newydd ar gyfer arolygon etholaethau a sefydlwyd gan y Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011;
- Cymhwysedd ac argaeledd data am etholwyr 2011;
- Cynhwysedd ffiniau llywodraeth leol;
- Y defnydd o adrannau etholiadol llywodraeth leol fel sylfeini ar gyfer etholaethau;
- Cyhoeddi a dosbarthu llyfryn gwybodaeth; a
- Chyfarfod â'r pleidiau gwleidyddol Seneddol.

## Y Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011

2. Derbyniodd y Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 Gydsyniad Brenhinol ar 17 Chwefror 2011. Mae'r Ddeddf honno yn diwygio ymhellach Deddf Etholaethau Seneddol 1986 ('Deddf 1986'). Mae'n ofynnol bellach bod yn rhaid i'r pedwar Comisiwn Ffiniau yn y DU gynnal arolwg cyffredinol o'r etholaethau seneddol yn y rhannau hynny o'r DU maent yn gyfrifol amdanynt a chyflwyno eu hadroddiadau terfynol ar yr arolygon i'r Llywodraeth "cyn 1 Hydref 2013". Yn unol â hynny, ysgrifennodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru at y Dirprwy Brif Weinidog ar 4 Mawrth 2011 i gadarnhau ei fod eisoes wedi cychwyn yn ffurfiol ei chweched arolwg cyffredinol, er yn ôl telerau Deddf 1986 y 'dyddiad arolwg' yw 1 Rhagfyr 2010.

3. Dau brif ofyniad y diwygiadau i Ddeddf 1986 yw y bydd yn rhaid i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ddyrannu nifer fanwl gywir o etholaethau i Gymru (a gyfrifir o gyfanswm penodol o 600 etholaeth ar gyfer y DU i gyd), ac mae'n rhaid sicrhau bod nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth o fewn 5% o 'gwota etholwyr y DU'. Er y gellid ystyried ffactorau eraill, mae'r rhain oll yn ddarostyngedig i'r gofyniad na fydd nifer yr etholwyr yn llai na 95% nac yn fwy na 105% o gwota etholwyr y DU. Cynhwysir manylion llawn am y newidiadau eraill i Ddeddf 1986 mewn llyfryn

Tŷ Caradog , 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew's Place, Cardiff CF10 3BE
☎ (029) 2039 5031 Ffacs/Fax (029) 2039 5250
e-bost/e-mail: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk / bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk
gwefan/website: www.comffin-cymru.gov.uk / www.bcomm-wales.gov.uk
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg
The Commission welcomes correspondence and telephone calls either in English or Welsh

arweiniad y bydd y Comisiwn yn ei gyhoeddi maes o law (gweler yr eitem isod o dan y pennawd "Llyfryn arweiniad").

4. Yn ôl y ddeddfwriaeth newydd, ar gyfer y chweched arolwg cyffredinol, bydd yn rhaid i'r Comisiwn seilio ei argymhellion ar nifer yr etholwyr y mae eu henwau yn ymddangos ar gofrestr yr etholwyr seneddol a gyhoeddir rhwng 1 Rhagfyr 2010 a 1 Chwefror 2011 (gweler yr eitem isod o dan y pennawd "data etholwyr 2011").

5. Felly, mae'r pedwar Comisiwn Ffiniau yn y DU wedi cytuno, at ddibenion y chweched arolwg cyffredinol, mai cyfanswm nifer yr etholwyr yn y DU yw 45,678,175 ac, ar ôl defnyddio'r fformiwla a benodir yn Neddf 1986, mae nifer yr etholaethau ar gyfer pob rhan o'r DU fel a ganlyn:-

| Gwlad | Etholwyr | Dyraniad presennol | Dyraniad newydd | Gostyngiad |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Lloegr* | 38,332,557 | 533 | 502 | 31 |
| Gogledd Iwerddon | 1,190,635 | 18 | 16 | 2 |
| Yr Alban ** | 3,873,387 | 59 | 52 | 7 |
| Cymru | 2,281,596 | 40 | 30 | 10 |
| **Cyfanswm** | **45,678,175** | **650** | **600** | **50** |

* Nid yw nifer yr etholwyr ar gyfer Lloegr yn cynnwys etholwyr Ynys Wyth. Caniateir i'r ardal hon greu etholaethau lle mae nifer yr etholwyr yn fwy na 5% y tu allan i gwota etholwyr y DU.
** Nid yw nifer yr etholwyr ar gyfer yr Alban yn cynnwys etholwyr dwy etholaeth wedi'u cadw sef a) Orkney and Shetland a b) Na h-Eileanan ân Iar. Caniateir i'r etholaethau hyn gael nifer etholwyr sy'n fwy na 5% y tu allan i gwota etholwyr y DU.

6. Cwota etholwyr y DU i'r cyfanrif agosaf yw 76,641. Felly, mae'n rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gynnwys rhwng 72,810 a 80,473 o etholwyr.

7. Yn dilyn rhywfaint o waith enghreifftiol cychwynnol, mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad y bydd rhoi'r fframwaith statudol newydd ar waith yn debygol o olygu newidiadau helaeth ac eang iawn i batrwm a chyfansoddiad presennol etholaethau. Mae'r ffaith y bydd angen newidiadau mawr i gydymffurfio â'r fframwaith newydd wedi'i nodi gan ystod o wleidyddion, academyddion a sylwebyddion gwleidyddol.

8. Mae nifer yr etholaethau yng Nghymru, a gyfrifwyd yn unol â'r fformiwla a nodir ym mharagraff 8 o Atodlen 2, a'r gofyniad na ddylai nifer yr etholwyr yn unrhyw etholaeth fod yn llai na 95% nac yn fwy na 105% o gwota etholwyr y DU yn ofynion statudol y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu defnyddio heb unrhyw hawl i ddewis yn hynny o beth. Mae'r meysydd hynny lle mae gan y Comisiwn yr hawl i ddewis fel ystyried ffiniau llywodraeth leol ac unrhyw gysylltiadau lleol a dorrir gan newid etholaethau, yn ddarostyngedig i'r ddau ofyniad statudol hyn.

Data etholwyr 2011

9. Mae data etholwyr Cymru 2011, sy'n deillio o ystadegau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac sy'n seiliedig ar gofrestri etholwyr a gyhoeddwyd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yr awdurdodau unedol rhwng 1 Rhagfyr 2010 ac 1 Chwefror 2011, ar gael i'w lawrlwytho heddiw o wefan y Comisiwn. Mae'r data yn cynnwys nifer yr etholwyr ar gyfer pob ardal awdurdod unedol a nifer yr etholwyr ar gyfer pob adran etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru.

Ffiniau llywodraeth leol

10. Mae Deddf 1986 fel y'i diwygiwyd, yn darparu y gall Comisiwn Ffiniau "... ystyried, os ac i'r graddau hynny yr ystyria sy'n addas - ..... (b) ffiniau llywodraeth leol fel roeddent yn bodoli ar y dyddiad etholiad cyngor cyffredin diweddarach cyn dyddiad yr arolwg; ....". Yn unol â hynny, gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol fel roeddent ar 6 Mai 2010. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y bydd, cyn belled ag y gall, yn ddarostyngedig i'r dyraniad sefydlog o etholaethau a'r gofyniad na all nifer yr etholwyr fod yn llai na 95% nac yn fwy na 105% o gwota etholwyr y DU, yn ystyried y ffiniau llywodraeth leol hynny pan fydd yn llunio ei argymhellion dros dro.

11. Pan fydd gan awdurdod unedol naill ai adrannau etholaethol newydd neu newidiadau i ffiniau adrannau etholaethol sydd at ddod i rym yn ystod etholiad awdurdodau unedol ym mis Mai 2011 neu yn ystod blynyddoedd dilynol, ni ddylid ystyried y rhain gan y Comisiwn yn yr argymhellion y bydd yn eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr arolwg hwn am y rheswm a roddir ym mharagraff 10.

Y defnydd o adrannau etholiadol llywodraeth leol, ardaloedd Cymunedol a wardiau ardaloedd Cymunedol fel sylfeini ar gyfer etholaethau

12. Mabwysiadodd y Comisiwn ei bolisi o ddefnyddio adrannau etholiadol fel sylfeini ar gyfer etholaethau yn ystod y trydydd arolwg cyffredinol (1976-1983) a pharhaodd â'r polisi hwn yn ystod y pedwerydd arolwg cyffredinol (1991-1995) a'r pumed arolwg cyffredinol (2000-2006), lle nad oedd unrhyw adran etholaethol (llywodraeth leol) wedi'i rhannu rhwng etholaethau. Wrth ystyried ei bolisïau ar gyfer y chweched arolwg cyffredinol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu y byddai'n ddymunol fel arfer, unwaith eto, i ddefnyddio adrannau etholaethol cyflawn i greu etholaethau lle y bo'n ymarferol gwneud hynny, tra ar yr un pryd yn cadw at y gofyniad na fydd nifer yr etholwyr naill ai'n llai na 95% nac yn fwy na 105% o gwota etholwyr y DU.

13. Bydd defnyddio adrannau etholiadol llywodraeth leol yn galluogi'r Comisiwn i fanteisio ar y wybodaeth sylweddol sydd eisoes yn bodoli amdanynt. Mae cyfansoddiad ac ardal pob adran etholiadol wedi'u diffinio'n glir mewn Offeryn Statudol, ac mae'r ystadegau etholiadol ar gyfer pob un ohonynt ar gael gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yr awdurdodau unedol lle y'u lleolir.

14. Mae'r Comisiwn yn nodi a mabwysiadu'r rhesymau eraill hefyd a oedd wedi'u rhoi eisoes am ddefnyddio adrannau etholiadol cyflawn fel sylfeini i etholaethau, sef bod adrannau etholaethol:-

- yn gyffredinol, yn nodweddiadol o ardaloedd sydd â diddordeb cymunedol cyffredin;
- fel arfer â threfn sefydlog weinyddol a threfnus ar waith ar gyfer trefnu etholiadau ynddynt;
- ag hunaniaeth sy'n hysbys yn gyffredinol i'r etholwyr lleol a'u bod yn deall sut y maent wedi'u trefnu a lle y gallant bleidleisio; ac
- mae sefydliadau pleidiau gwleidyddol lleol fel arfer wedi'u seilio ar adrannau etholiadol neu grwpiau o adrannau.

15. Cadarnhaodd profiad y Comisiwn o arolygon cyffredinol blaenorol hefyd y byddai unrhyw rannu adran etholiadol rhwng etholaethau yn debygol o dorri cysylltiadau lleol, rhwygo sefydliadau pleidiau gwleidyddol, achosi trafferthion i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau ac, efallai drysu'r etholwyr.

16. Yn yr achosion hynny lle na fydd yn bosibl bodloni'r gofyniad na fydd nifer yr etholwyr naill ai'n llai na 95% nac yn fwy na 105% o gwota etholwyr y DU, bydd yn rhaid i'r Comisiwn rhannu adrannau etholiadol i'r fath raddau y mae ei angen er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'n bosibl y bydd y Comisiwn yn rhannu adran etholiadol i ardaloedd Cymunedol ac yn wardiau'r ardaloedd Cymunedol hynny (lle mae wardiau yn bodoli), gan y gall nifer yr etholwyr ar gyfer yr unedau hyn gael eu cyfrifo drwy ddefnyddio'r cofrestri etholiadol cyhoeddedig ynghyd â chymorth y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Mewn achosion o'r fath, ni ellir osgoi gwyro o'r ymagwedd gyffredinol a esboniwyd ym mharagraffau 12 i 14.

Llyfryn arweiniad

17. Fel yn achos arolygon cyffredinol blaenorol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi llyfryn arweiniad er mwyn cynorthwyo i wneud y broses arolwg yn fwy hysbys ac yn fwy dealladwy. Bwriad y llyfryn i'w cynorthwyo'r rhai hynny sydd am gymryd rhan yn yr arolwg gan roi mwy o fanylion iddynt am y rheolau statudol y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth wneud ei gynigion, a'r prosesau y mae'n rhaid iddo eu dilyn er mwyn hwyluso trafodaeth gyhoeddus wybodus ar y cynigion.

18. Disgwylir y cyhoeddir y llyfryn cyn diwedd mis Ebrill 2011. Fe'i dosberthir i bob Aelod Seneddol sy'n cynrychioli etholaeth yng Nghymru, pencadlysoedd y pleidiau gwleidyddol seneddol, llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Prif Weithredwyr pob awdurdod unedol, pob Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r rhai hynny sydd eisoes ar restr bost gyffredinol y Comisiwn. Bydd y llyfryn ar gael hefyd ar wefan y Comisiwn.

19. Os nad ydych ymhlith y rhai hynny a restrwyd yn y paragraff blaenorol a'ch bod am gael copi, yna ffoniwch ni ar 029 2039 5031 i wneud cais i ychwanegu'ch enw at y rhestr bost gyffredinol. Fel arall, gellir cysylltu â ni drwy anfon neges e-bost (comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk) neu ysgrifennu i'r cyfeiriad a welir ar waelod y dudalen flaen.

Cyfarfodydd â phleidiau gwleidyddol Seneddol

20. Yn unol â'r arfer yn ystod arolygon cyffredinol blaenorol, bydd y Comisiwn yn cynnal cyfarfod ar y cyd â chynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol Seneddol Cymru ym mis Ebrill 2011. Cynhelir y cyfarfod i drafod y rheolau statudol y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried, y prosesau y mae'n rhaid iddo eu dilyn, a'r ymagwedd y bydd yn ei mabwysiadu wrth gynnal yr arolwg. Ni fydd yn ystyried unrhyw gynigion ffiniau penodol.